

David Rees, AS
Cadeirydd, Pwyllgor y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

28 Medi 2023

Annwyl Gadeirydd

Parthed: Amcangyfrif Atodol 2023/24

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch cynghori am sawl pwysau ariannol sydd wedi codi yn 2023/24, ac felly i ofyn am **£53,900** ychwanegol gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn hon drwy'r broses amcangyfrif atodol i fodloni'r ddau bwysau canlynol.

Yn gyntaf, fel y byddwch yn gwybod, cafodd y Comisiwn Etholiadol ei dargedu gan weithredwyr gelyniaethus mewn ymosodiad seiber cymhleth. Cafodd hyn ei nodi ym mis Hydref 2022 a'i gyhoeddi i'r cyhoedd ym mis Awst 2023. Nodwyd rhai costau ychwanegol, sy'n gysylltiedig â rheoli'r systemau i wella systemau trosglwyddo diogelwch i'r cwmwl, yn y ceisiadau cyllideb ar gyfer 2023/24, sef £312,000. Gofynnwyd am y swm hwn drwy'r prif gais gan Bwyllgor y Llefarydd yn Senedd y DU. Fodd bynnag, nid hwn oedd yr unig gost a oedd wedi'i briodoli'n uniongyrchol i'r cynnydd yn ein seiberdiogelwch, ac yn 2023/24 byddwn hefyd yn mynd i gostau rhedeg o £308,000 pellach. O'r swm hwn, rydym yn ceisio cyfraniad o 5%, sef **£15,400**, gan y Senedd. Bydd y gweddill yn cynnwys 8% gan Senedd yr Alban ac 87% gan Senedd y DU.

Nid y Comisiwn oedd yr unig sefydliad seilwaith cenedlaethol a dargedwyd, gan ein bod yn ymwybodol o dargedau mor amrywiol â'r Post Brenhinol, y swyddfa cofnodion troseddol ACRO, a'r Heddlu Metropolitanaid. Mae hyn yn tynnu sylw at fregusrwydd cyrff sector cyhoeddus i ymosodwyr cymhellol a sensitifrwydd eithafol y data sydd ganddynt. Felly, mae'n rhaid i ni dderbyn camau yn y dyfodol i leihau'r risgiau o feddalwedd wystlo, ymosodiadau gan drydydd parti a theilwra cymdeithasol yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus i dorri systemau critigol.

Yn ail, mae'r dyfarniadau tâl ar gyfer 2022/24 wedi bod yn uwch na'r lefel a ddisgwyliwyd pan wnaethom gyflwyno ein hamcangyfrif gwreiddiol. Mae'r Comisiwn wedi alinio ei setliad cyflog ag un y Gwasanaeth Sifil ehangach a ganiataodd dyfarniadau tâl cyfartalog hyd at 4.5% gyda hyblygrwydd pellach i wneud dyfarniadau hyd at 0.5% ychwanegol, wedi'u targedu at fandiau cyflog is. Yn ogystal â hyn, ar gyfer 2023/24, gwnaethom hefyd alinio ein hunain â'r Canllawiau Cylch Cyflog wrth wneud taliad anghyfunol sefydlog o £1,500 fesul cyflogai llawn amser ar gyfer y rheiny mewn swyddi dirprwyedig, yn amodol ar gymhwysedd. Yn wreiddiol roedd y Comisiwn wedi cyllidebu ar gyfer setliad cyflog o 4%

(£553,000), ond effaith gyfun yr uchod yw cost gyffredinol ychwanegol o £1,014,000. Yr effaith ar y gais am gyllideb atodol ar gyfer y Senedd yw tua 8.3% o'r swm hwn, sef **£38,500**.

Sylwch nad oedd y gyllideb a osodwyd ar gyfer 2023/24 yn cymryd i ystyriaeth symiau wrth gefn pellach y gellid eu defnyddio i leihau pwysau'r newidiadau o ganlyniad i'r ymosodiad seiber neu'r dyfarniad cyflog, ac mae mentrau eraill i leihau costau yn cael eu defnyddio i wrthbwysu pwysau eraill gan gynnwys newidiadau i wella capasiti.

Yn olaf, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi a'r Pwyllgor am eich cefnogaeth barhaus ar gyfer gweithgareddau'r Comisiwn yng Nghymru.

Yr eiddoch yn gywir,



Shaun McNally CBE

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu, Y Comisiwn Etholiadol